


# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2014
Cyfeirnod y ddog: 298A2014

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn wedi'i baratoi ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Colin Davies a Jeremy Evans o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Mae’r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da tuag at gyflawni ei flaenoriaethau gwella 7

Mae’r Cyngor wedi ymgorffori hunanwerthuso yn ei holl wasanaethau, ond mae gwendidau mewn rhai cynlluniau lefel gwasanaeth yn destun pryder 12

Mae’r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella, ond mae’r Archwilydd Penodedig wedi cyhoeddi dau adroddiad er budd y cyhoedd ac mae wedi amlygu rhai meysydd lle mae angen ystyried trefniadau llywodraethu 13

Ar hyn o bryd, nid yw’r Archwilydd Cyffredinol yn gallu dod i gasgliad ynghylch a yw’r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15 18

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 19

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Gaerfyrddin a Chyngor Sir Caerfyrddin 20

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 22

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Caerfyrddin 25

# Adroddiad cryno ac argymhellion

## Crynodeb

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r gwaith a wnaed gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, ac mae hefyd yn defnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol Cymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau Cyngor Sir Caerfyrddin (y Cyngor) i ddarparu a gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2012-13, ei waith cynllunio ar gyfer gwella ar gyfer 2013-14 a, chan ystyried y rhain, casgliad yr Archwilydd Cyffredinol o ran a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Daethom i'r casgliad fod y Cyngor, yn 2012-13, yn parhau i wneud cynnydd da tuag at gyflawni ei flaenoriaethau gwella. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cynorthwyo dinasyddion i gael gafael ar dai rhent a thai fforddiadwy ac mae'n hyderus y bydd yn cyrraedd ei darged i ddarparu tai o safon dderbyniol i'w holl denantiaid tai cymdeithasol erbyn 2015;
- mae'r Cyngor yn cynorthwyo ei ddinasyddion sy'n agored i niwed yn dda;
- mae'r Cyngor yn datblygu ei *Raglen Moderneiddio Addysg* ac yn cryfhau ei allu i werthuso effaith ei weithredoedd;
- mae ymagwedd y Cyngor at reoli gwastraff yn effeithiol ac mae'n cyfrannu'n gadarnhaol at leihau allyriadau carbon yn y sir; ac
- mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ei *Gynllun Iaith Gymraeg* ond mae llai o staff wedi cael hyfforddiant Cymraeg yn ystod 2012-13.

3 Yn ogystal, nodwyd bod y Cyngor wedi ymgorffori hunanwerthuso yn ei holl wasanaethau, ond mae gwendidau mewn rhai cynlluniau lefel gwasanaeth yn destun pryder.

4 Yn olaf, yn ystod 2013-14, cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig ddau adroddiad er budd y cyhoedd. Tynnodd yr Archwilydd Penodedig sylw'r cyhoedd at ddau benderfyniad a wnaeth y Cyngor a oedd, yn ei farn ef, yn anghyfreithlon ac amlygodd nifer o feysydd lle mae angen gwella trefniadau llywodraethu. Canfuwyd hefyd:

- bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) ond mae angen iddo sicrhau gwell ymgysylltiad ag aelodau o ran datblygu ei flaenoriaethau gwella a chraffu arnynt;

- bod y Cyngor yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hasesiadau blaenorol ond araf yw'r cynnydd mewn rhai meysydd; ac
- er bod gan y Cyngor gynlluniau ariannol clir a chadarn nid yw'n glir sut y mae'r rhain yn ategu'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol a'i amcanion gwella.

5 Gan ystyried yr uchod, ac ystyried y pryderon ynglŷn â gwneud penderfyniadau, yn benodol tryloywder y penderfyniadau a wneir, rôl uwch swyddogion ac Aelodau wrth wneud y penderfyniadau hynny, perthnasedd ac eglurder yr wybodaeth a ddefnyddir i lywio penderfyniadau, a'r effaith anochel ar ymddiriedaeth a hyder o fewn y Cyngor a'r amgylchedd ehangach, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol ar hyn o bryd yn gallu dod i gasgliad ynghylch a yw'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

## Argymhellion

6 Nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion newydd eleni, ac mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud i fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn ein hadroddiadau blaenorol. Mae'r cynigion hyn ar gyfer gwella wedi'u hamlinellu yn ein llythyrau asesiad gwella a roddwyd i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae'r llythyrau hyn ar gael ar ein gwefan: www.wao.gov.uk.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan y Mesur, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, daw'r adroddiad i gasgliad o ran pa un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir gwella arnynt. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

# Mae’r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da tuag at gyflawni ei flaenoriaethau gwella

## Mae’r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cynorthwyo dinasyddion i gael gafael ar gartrefi rhent a fforddiadwy ac mae’n hyderus y bydd yn cyrraedd ei darged i ddarparu tai o safon dderbyniol i’w holl denantiaid tai cymdeithasol erbyn 2015

11 Mae mentrau i fynd i’r afael â digartrefedd wedi bod yn effeithiol – fel cynyddu’r cyflenwad o lety preifat fforddiadwy sydd ar gael i’r rentu yn y sir. Mae ymagwedd y Cyngor at ailddechrau defnyddio cartrefi gwag yn y sector preifat yn gynhwysfawr ac yn effeithiol; rhagorodd ar ei darged ar gyfer 2012-13, ac erys yn 9fed o blith y 22 o gynghorau ar gyfer y mesur perfformiad hwn. Mae’r Cyngor yn defnyddio cymhellion (fel y cynllun *Troi Tai’n Gartrefi*[1]) a gorfodi i annog perchnogion eiddo i adnewyddu cartrefi gwag – ac mae’n darparu gwasanaeth rheoli i landlordiaid y sector preifat, drwy ei Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol. Mae’r gwasanaethau a gynigir gan yr Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol wedi annog rhai landlordiaid amharod i adnewyddu eiddo. Rhagorodd yr Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol ar ei tharged ar gyfer gosodiadau newydd yn ystod 2012-13, cafodd adborth cadarnhaol gan adolygiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae’n uchel ei pharch yn lleol.

12 Mae’r Cyngor wedi lleihau’n sylweddol yr amser a gymerir i ailosod tai cymdeithasol drwy ymateb i adborth a mynd i’r afael â rhai o’r cyfyngiadau a oedd yn atal tenantiaid rhag manteisio arnynt yn gyflym.

13 Yn ogystal, mae gwaith adnewyddu yn ystyried anghenion darpar denantiaid yn well; mae’r gwaith yn cael ei gwblhau gan dîm aml-sgiliau a grëwyd gan y Cyngor yn benodol at y diben hwn. Mae perfformiad cyffredinol y gwasanaeth atgyweirio wedi gwella’n sylweddol er 2005-06 gyda gostyngiad o ran yr amser a gymerir i ymateb i bob categori atgyweirio. Er enghraifft, mae’r amser a gymerir i gwblhau atgyweiriadau brys wedi gostwng o 1.7 i 0.4 diwrnod ac mae atgyweiriadau brys bellach yn cael eu cwblhau mewn 3.8 diwrnod ar gyfartaledd, o gymharu â 15.3 diwrnod yn 2005-06. Mae adborth gan denantiaid ar drefniadau’r Cyngor yn gadarnhaol; roedd 88 y cant o’r holl denantiaid o’r farn bod y gwasanaeth cwsmeriaid a gafwyd ganddynt yn dda iawn a dywedodd 12 y cant fod y gwasanaeth yn dda.

14 Mae’r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran cyflawni Safon Tai Sir Gaerfyrddin[2]. Rhagorodd ar ei dargedau gwaith mewnol ar gyfer 2012-13, ond cafodd ei atal gan dywydd garw rhag cyrraedd y targed ar gyfer gwaith allanol. Yn gyffredinol, cyrhaeddodd 52 y cant o’r stoc tai Safon Tai Sir Gaerfyrddin erbyn diwedd mis Mawrth 2013, ond roedd pob tŷ yn bodloni meini prawf penodol fel y safon ar gyfer toeon, ffenestri ac inswleiddio’r atig a waliau ceudod, sef meini prawf y gofynnodd y tenantiaid i’r Cyngor eu blaenoriaethu. Datblygodd y Cyngor raglen gynhwysfawr o waith ar gyfer 2013-14, yn hyderus y bydd yn ôl ar y trywydd cywir a sicrhau bod y stoc gyfan yn cyrraedd Safon Tai Sir Gaerfyrddin erbyn diwedd 2015 yn erbyn terfyn amser

1 Y Cyngor yw’r awdurdod arweiniol mewn menter ar y cyd â thri chyngor unedol arall, sy’n ceisio sicrhau’r effaith fwyaf yn sgil dyrannu cyllid Llywodraeth Cymru sydd ar gael drwy’r gronfa fenthyciad *Troi Tai’n Gartrefi*, sy’n cynorthwyo darpar landlordiaid i adnewyddu tai’r sector preifat.

2 Mae Safon Tai Sir Gaerfyrddin yn fersiwn well o *Safon Ansawdd Tai Cymru* (safon dechnegol ar gyfer tai cymdeithasol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru) sy’n ceisio darparu tai o safon dderbyniol i bob tenant tai cymdeithasol erbyn 2020.

cenedlaethol diwygiedig, sef 2020. Er bod hyn yn her sylweddol, erbyn diwedd mis Mawrth 2014 dangosodd gwerthusiad y Cyngor fod bron 75 y cant o'i stoc tai yn cyrraedd Safon Tai Sir Gaerfyrddin.

15 Mae gan y Cyngor dystiolaeth dda am yr effaith fuddiol y mae ei raglen Safon Tai Sir Gaerfyrddin yn ei chael ar les ei denantiaid. Nododd astudiaeth gydweithredol hirdymor gyda dwy brifysgol amrywiaeth o welliannau'n ymwneud ag iechyd ymhlith tenantiaid, a briodolir i'r datblygiadau ym maes safon tai a ysgogwyd gan waith Safon Tai Sir Gaerfyrddin.

16 Yn ogystal â gwella'r stoc tai a mynediad i gartrefi rhent a fforddiadwy, mae mentrau sy'n gysylltiedig â thai wedi hyrwyddo canlyniadau economaidd a chymunedol gwerthfawr eraill. Er enghraifft, mae rhaglen Safon Tai Sir Gaerfyrddin yn cyfrannu dros £25 miliwn y flwyddyn i'r diwydiant adeiladu ac mae wedi darparu lleoliadau gwaith gyda chontractwyr i dros 180 o brentisiaid.

## Mae'r Cyngor yn cynorthwyo ei ddinasyddion sy'n agored i niwed yn dda

17 Mae cynllun gwella a dogfennau adolygu'r Cyngor yn cyflwyno darlun cadarnhaol o gynnydd parhaus ac ymrwymiad cryf i welliant parhaus a chymorth i les dinasyddion y sir. Mae'r adolygiad yn cynnwys manylion ynghylch lle y cyrhaeddodd y Cyngor ei uchelgais a lle y methodd ei dargedau gan ddisgrifio mewn ffordd gytbwys y cynnydd a wnaed ganddo dros y flwyddyn. Mae'r naratif hefyd yn esbonio yr hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud yn wahanol lle mae targedau wedi'u methu.

18 Cyhoeddodd AGGCC ei *Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012-13* ym mis Hydref 2013 ac mae hwn ar gael ar ei gwefan: www.cssiw.org.uk. Ceir crynodeb o ganfyddiadau AGGCC ym mharagraffau 19 i 25.

19 Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd cryf ac mae'n perfformio'n dda. Mae'r Cyfarwyddwr yn rhoi arweinyddiaeth effeithiol gan y cyfarwyddwr, sy'n rhoi gweledigaeth ac arweiniad clir ar draws y maes gofal cymdeithasol i oedolion a phlant. Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol gyda nodau strategol clir. Yn adroddiad blynyddol a chynllun gwella Arweinydd y Cyngor amlinellir ymrwymiad y Cyngor i gyflawni gwasanaethau gofal cymdeithasol o'r ansawdd gorau, gan sicrhau effeithlonrwydd a gwasanaethau sy'n rhoi gwerth da am arian ar yr un pryd. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r heriau ariannol, ac mae'r Cyfarwyddwr wedi nodi ei strategaeth gyllidebol adrannol i gyflawni mwy o effeithlonrwydd a gwasanaethau cynaliadwy.

20 Yn adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr ceir adroddiad cynhwysfawr a chywir o berfformiad y Cyngor a nodir ei flaenoriaethau strategol ar gyfer y 12 mis nesaf. Mae'r adroddiad yn cynnwys tystiolaeth dda i ategu sut y mae canlyniadau'n cael eu cyflawni ac mae'n adlewyrchu barn defnyddwyr gwasanaethau. Mae'n integreiddio gweithgarwch perfformiad, gan nodi cynnydd yn erbyn targedau allweddol ac amlinellu blaenoriaethau sydd ar y gweill. Rhydd hyn wybodaeth glir am ei atebolrwydd cyhoeddus ac mae'n galluogi dinasyddion Sir Gaerfyrddin i benderfynu ar ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau lleol.

21 Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da o ran gweithredu rhaglen o newid ar draws gwasanaethau oedolion, gan ganolbwyntio ar ddatblygu adnoddau cymunedol mwy effeithiol i gynorthwyo pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy. Datblygir y nod o gynorthwyo pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth drwy ddarparu gwasanaeth ailalluogi a datblygu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar. Gweithia gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion y Cyngor yn dda gyda Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda i ddarparu model gofal integredig.

22 Mae gwasanaethau i blant yn elwa ar arweinyddiaeth gref, a ategir gan weithlu sefydlog. Ceir gweledigaeth glir ar gyfer datblygu gwasanaethau sy'n targedu ataliaeth ac ymyrraeth gynnar gan ddarparu cymorth i'r teulu cyfan. Mae pennaeth y gwasanaeth yn datblygu trefniadau newydd i ymateb i'r heriau ariannol ac i gynorthwyo gweithwyr cymdeithasol wrth ymarfer, gan geisio darparu gwasanaeth mwy ymatebol ac effeithiol i blant a'u teuluoedd.

23 Dengys rhai dangosyddion perfformiad mewn gwasanaethau plant fod nifer o feysydd lle y dylai'r Cyngor wneud gwelliannau. Mae canran yr asesiadau plant lle mae plant yn cael eu gweld gan weithiwr cymdeithasol yn is na'r rhan fwyaf o'r cynghorau, a hefyd y ganran lle mae plant yn cael eu gweld ar eu pen eu hunain. Ymhlith y meysydd eraill lle y gellid gwella mae prydlondeb cynadleddau achos amddiffyn plant cychwynnol, sefydlogrwydd lleoliadau a chyfradd yr adolygiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a nifer y plant sy'n derbyn gofal sydd â chynllun addysg yn ei le o fewn 20 diwrnod.

24 Nododd AGGCC y risgiau posibl canlynol yn y Cyngor:

- mae datblygu byrddau diogelu rhanbarthol i oedolion a phlant yn cyflwyno her i sicrhau yr eir i'r afael â materion a blaenoriaethau diogelu lleol drwy'r grŵp rhanbarthol; ac
- mae cyfyngiadau ariannol y Cyngor yn her, i sicrhau y gallant barhau i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol effeithiol i'w ddinasyddion.

25 Nododd AGGCC hefyd y meysydd canlynol o arfer da:

- mae gwasanaethau plant yn dangos bod eu strategaethau ataliol yn gweithio'n effeithiol, gyda llai o blant sydd angen gofal arnynt ac mae'r rheini y mae angen amddiffyniad arnynt yn cael budd o ymyriad mwy rhagweithiol ac ymatebol;
- gwelliannau parhaus o ran gostwng yr achosion o oedi wrth drosglwyddo o'r ysbyty; a
- chynnydd yn nifer y bobl hŷn sy'n aros yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy, drwy'r ymagwedd integredig ac ailalinio darparu gwasanaethau.

## Mae’r Cyngor yn datblygu ei *Raglen Moderneiddio Addysg* ac yn cryfhau ei allu i werthuso effaith ei weithredoedd

26 Mae *Rhaglen Moderneiddio Addysg* y Cyngor yn cynnwys dau nod allweddol, sef lleihau nifer y lleoedd gwag yn ei ysgolion a gwella ansawdd ei adeiladau ysgolion gan sicrhau eu bod yn addas at y diben.

27 I ddechrau roedd 20 y cant o leoedd gwag yn y sector cynradd a 10 y cant o leoedd gwag yn y sector uwchradd. Cyfanswm hyn oedd tua 4,000 o leoedd gwag. Mae’r cyngor yn anelu at lefel gyffredinol o 15 y cant sy’n uwch na’r hyn a argymhellir gan Lywodraeth Cymru, yn rhannol oherwydd cynnydd yn y gyfradd enedigaethau leol.

28 Mae hon yn rhaglen hirdymor fawr gyda llawer o ffactorau dibynnol, rhai y tu allan i reolaeth y Cyngor. Er enghraifft, mae’r Cyngor bellach yn gweld bod rhai ysgolion cynradd trefol yn orlawn. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod rhieni yn mynd â’u plant i ysgol sy’n agos i’w gweithle yn hytrach nag ysgolion sydd agosaf at eu cartrefi. Mae hyn yn golygu bod plant yn symud o ysgolion gwledig i ysgolion trefol mwy. Gall yr amrywioldeb hwn yn nifer y disgyblion ei gwneud yn anodd cynllunio.

29 Canran yr ysgolion sydd bellach wedi’u cofnodi fel rhai sy’n addas at y diben yw 25 y cant. Fodd bynnag, mae’r ysgolion hyn yn cyfrif am fwy na 25 y cant o ddisgyblion. Gyda nifer yr ysgolion bach yn lleihau, mae’r baich ar y Cyngor i gynnal a moderneiddio adeiladau ysgolion yn lleihau. Mae rhaglen y Cyngor wedi’i datblygu’n dda ac ar hyn o bryd mae’n gweithio ar 16 o brosiectau, i ailgyflunio, cau neu adnewyddu ei ysgolion. Wrth i’r prosiectau hyn aeddfedu mae’r Cyngor yn hyderus y bydd canran yr ysgolion sy’n addas at y diben yn cynyddu’n gyflym. Wrth i’r rhain gael eu cwblhau, bydd prosiectau eraill yn cael eu cychwyn.

30 Mae’r Cyngor wedi datblygu ffyrdd gwell o werthuso cynnydd ac, yn arbennig, asesu effaith y *Rhaglen Moderneiddio Addysg* ar staff a disgyblion. Cynhelir y gwerthusiadau newydd hyn 18 mis ar ôl cwblhau gwaith moderneiddio a byddant yn ystyried barn staff a disgyblion ar eu hamgylchedd newydd yn ogystal â mesur canlyniadau o ran gwell presenoldeb a chyrhaeddiad.

## Mae ymagwedd y Cyngor at reoli gwastraff yn effeithiol ac mae’n cyfrannu’n gadarnhaol at leihau allyriadau carbon yn y sir

31 Roedd perfformiad y Cyngor o ran gwastraff yn dda yn 2012-13, gan ragori ar y targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Lleihaodd cyfran y gwastraff trefol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yn unol â’r cyfartaledd cenedlaethol; arhosodd y Cyngor yn safle 11 o blith 22 o gynghorau, am y bedwaredd flwyddyn yn olynol. Roedd cyfran y gwastraff trefol a gasglwyd i’w ailddefnyddio a/neu i’w ailgylchu hefyd wedi gwella, ac ar gyfradd gyflymach na’r cyfartaledd cenedlaethol; dringodd y Cyngor o safle 11 i’r 9fed safle 1 o blith y 22. Yn ogystal â’r manteision amgylcheddol a gyflawnwyd drwy ragori ar y targedau cenedlaethol ar gyfer gwastraff llwyddodd y Cyngor i osgoi cosbau ariannol posibl.

32 Mae'r Cyngor wedi parhau i gryfhau ei drefniadau i gasglu a gwaredu gwastraff a'i drefniadau ailgylchu, gan ystyried adborth gan ddinasyddion. Cafodd y cynllun ailgylchu ei gyflwyno i 99 y cant o gartrefi a sefydlwyd canolfannau ailgylchu gwastraff cartref ychwanegol, gan ei gwneud yn haws i drigolion ailgylchu. Mae'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â grwpiau rhanbarthol de-orllewin a de-ddwyrain Cymru i gyflwyno mentrau rhanbarthol newydd, megis y *Rhaglen Gwaith dadelfennu anaerobig a Gwastraff Gweddilliol*.

33 Helpodd buddsoddiad y Cyngor mewn systemau ynni cynaliadwy ar gyfer adeiladau annomestig i leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau $CO_2$. Roedd swm cyffredinol yr allyriadau $CO_2$ a gynhyrchir gan weithgaredd y Cyngor wedi lleihau 2.18 y cant yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cyngor hefyd yn cynorthwyo cymunedau ledled y sir i ddatblygu eu prosiectau lleol eu hunain i hyrwyddo cynaliadwyedd a lleihau eu hôl-troed carbon.

## Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ei *Gynllun Iaith Gymraeg* ond mae llai o staff wedi cael hyfforddiant Cymraeg yn ystod 2012-13

34 Crëwyd rôl y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym drwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

35 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i archwilio cynlluniau iaith a chynghori ar eu gweithredu. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol yn ymrwymedig i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad o ran gweithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn darparu ymateb ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.

36 Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i ymateb i ganlyniadau Cyfrifiad 2011 a'r gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir drwy sefydlu gweithgor i ddadansoddi'r canfyddiadau. Mae'r gweithgor wedi nodi wyth maes blaenoriaeth a bydd yn cynnig argymhellion i Fwrdd Gweithredol y Cyngor. Ni lwyddodd y Cyngor i gyrraedd rhai o'r targedau ar gyfer gweithredu ei gynllun iaith yn ystod 2012-13 ac mae wedi ymrwymo i roi blaenoriaeth iddynt yn ystod 2013-14. Roedd gostyngiad sylweddol yn nifer y staff a gafodd hyfforddiant iaith o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Oherwydd bod cyfleoedd i gynllunio'r gweithlu drwy recriwtio wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd, bydd angen i'r Cyngor fuddsoddi mwy mewn hyfforddiant Cymraeg a'i gynllunio'n effeithiol. Ni lwyddodd y Cyngor i adrodd ar nifer y staff sy'n gallu siarad Cymraeg; fodd bynnag, bydd system gyflogres newydd yn cael ei chyflwyno yn 2014 a fydd yn cofnodi sgiliau iaith y gweithlu.

## Mae'r Cyngor wedi ymgorffori hunanwerthuso yn ei holl wasanaethau, ond mae gwendidau mewn rhai cynlluniau lefel gwasanaeth yn destun pryder

37 Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ac adrodd o dan y Mesur yn effeithiol a hefyd wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

38 Mae'r Cyngor wedi datblygu model cynllunio ar gyfer gwella a monitro sydd wedi'i ymgorffori'n dda drwy bob rhan o'r sefydliad. Mae model y Cyngor yn seiliedig ar ymagwedd cynllunio-gwneud-adolygu ac mae'n defnyddio gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau. Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys dinasyddion a rheoleiddwyr yn ogystal â'r casgliad arferol o wybodaeth am berfformiad sy'n deillio o'r gwasanaethau eu hunain.

39 Ceir cysylltiadau rhwng cynllun gwella'r Cyngor a'r cynlluniau gwasanaethau oddi tano. Fodd bynnag, nid yw rhai o gamau'r cynllun gwasanaeth yn gadarn ac mae hyn yn cyfyngu ar allu cyfarwyddwyr ac aelodau craffu i ddwyn penaethiaid gwasanaethau i gyfrif. Yn ei dro, mae hyn yn effeithio ar y prosesau sydd gan y Cyngor i fonitro a rheoli perfformiad. Mae'r Cyngor yn cydnabod hyn ac mae'n cynnal cyfres o weithdai i gryfhau'r camau sydd yn y cynlluniau.

40 Mae System Gwybodaeth Perfformiad (PIMS) fewnol y Cyngor yn rhan allweddol o'r broses o adrodd ar berfformiad – mae wedi'i sefydlu'n dda ac mae amrywiaeth eang o swyddogion ac aelodau'n cael eu hyfforddi i'w defnyddio. Mae'r system PIMS yn galluogi mynediad i wybodaeth am berfformiad ar gyfer y presennol a'r gorffennol o ran pob un o fesurau'r Cyngor yn ogystal â chanlyniadau cynghorau eraill at ddibenion cymharu.

41 Rhoddir cyfle i aelodau pwyllgorau craffu gwestiynu uwch swyddogion bob chwe mis a herio perfformiad a'i drafod yn adeiladol. Ar y cyfan, mae cyfarfodydd Trosolwg a Chraffu yn cael eu rheoli'n dda, a gall yr amrywiaeth o gwestiynau ac ansawdd yr her fod yn dda. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar ddarparu gwybodaeth gyflawn o ansawdd uchel i aelodau a bod yr aelodau'n meddu ar y wybodaeth i'w galluogi i ymholi'n adeiladol.

42 Noda AGGCC fod llythyr Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi cyfrif cynhwysfawr a chywir o berfformiad y Cyngor ac yn adlewyrchu'n glir y dystiolaeth a ddarparwyd iddi. Noda hefyd fod y Cyngor yn parhau i ddangos gwelliannau cadarnhaol ym mhob maes gwasanaeth, plant ac oedolion; maent yn glir o ran eu blaenoriaethau a sut y maent yn gweld gwasanaethau'n cael eu llunio yn y dyfodol. Mae'r Cyngor wedi ymateb yn dda i'r meysydd ar gyfer datblygu a nodwyd y llynedd ac mae wedi eu cyflawni'n effeithiol o fewn ei fusnes craidd. Mae'r trefniadau monitro perfformiad yn monitro ac yn gwerthuso perfformiad yn effeithiol yn erbyn amcanion a chanlyniadau allweddol. Dengys cynllun gwella blynyddol y Cyngor ganlyniadau gwell yn y rhan fwyaf o feysydd gofal cymdeithasol.

43 Roedd y Cyngor unwaith eto'n llwyddiannus o ran cael grant llawn Cytundeb Canlyniadau Llywodraeth Cymru. Mae gan bob cyngor yng Nghymru ei gytundeb ei hun gyda Llywodraeth Cymru sy'n nodi sut y mae'n gweithio tuag at wella canlyniadau i bobl leol, yng nghyd-destun blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella, ond mae'r Archwilydd Penodedig wedi cyhoeddi dau adroddiad er budd y cyhoedd ac mae wedi amlygu rhai meysydd lle mae angen ystyried trefniadau llywodraethu

### Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwella o dan y Mesur ond mae angen iddo sicrhau gwell ymgysylltiad ag aelodau o ran datblygu ei flaenoriaethau gwella a chraffu arnynt

44 Mae'r Cyngor wedi llunio cyfuniad o *Adroddiad Blynyddol 12/13 a Chynllun Gwella 13/14* (y Cynllun) fel y gwnaeth y llynedd. Galluoga hyn y Cyngor i gysylltu ei berfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf â'i gynlluniau am y flwyddyn gyfredol, gan amlygu beth fydd yn ei wneud yn wahanol o ganlyniad. Mae'r Cynllun wedi'i osod allan yn dda ac yn hawdd ei ddarllen gyda defnydd da o liw, graffiau a thablau. Yn y cyflwyniad i'r Cynllun rhoddir cefndir i'r darllenydd o ran ei ddatblygiad ac mae'n cynnwys dolenni i ddogfennau allweddol eraill, gan gynnwys y *Strategaeth Gymunedol Integredig*, y *Cynllun Cydraddoldeb Strategol*, a *Chynllun yr Heddlu a Throsedd*.

45 Mae'r cynllun wedi'i anelu at y 'darllenydd hyddysg' ac mae dogfen gryno fyrrach ar gael i'r cyhoedd. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi darparu atodiad technegol cynhwysfawr sy'n cynnwys gwybodaeth a data manwl ar berfformiad y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cynnwys craffu yn ei ymgynghoriad ar y Cynllun drafft. Fodd bynnag, yn y dyfodol, mae angen i'r Cyngor ystyried sut y gall aelodau graffu'n well ar gynnwys y Cynllun drafft a chymryd mwy o ran wrth ddatblygu Amcanion Gwella Allweddol sy'n Flaenoriaeth (KIOP) y Cyngor.

46 Mae'r crynodeb yn gryno ac yn adlewyrchu cynnwys y Cynllun yn gywir ac mae'n cynnwys manylion cyswllt os bydd angen gwybodaeth fanylach ar y darllenydd. Mae'r Cynllun a'r crynodeb ohono wedi'u llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg ac maent yn bodloni gofynion *Cynllun Iaith Gymraeg* y Cyngor.

### Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hasesiadau blaenorol ond araf yw'r cynnydd mewn rhai meysydd

47 Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r rhan fwyaf o'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed mewn cysylltiad â'i gynllun gwella a'i adolygiad gwella.

48 Mae'r Cyngor wedi ymestyn y defnydd o'r system Adnoddau Dynol 'Insight' i ddarparu amrywiaeth o wybodaeth i reolwyr gyda'r nod o'u helpu i reoli eu staff a mynd i'r afael â materion cynllunio'r gweithlu. Ffurfiwyd grŵp strategaeth y gweithlu a bydd yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddadansoddi themâu'r gweithlu a dwyn ynghyd ymagwedd strategol at gynllunio'r gweithlu.

49 Mae angen o hyd i waith parhaus y Cyngor fynd i'r afael â'r materion allweddol a nodwyd gennym yn ein *Hardystiad Grantiau a Ffurflenni ar gyfer 2011-12* ond gwelwyd rhywfaint o welliant yn 2012-13.

50 Mae'r Cyngor wedi cymryd peth amser i ymateb i'r cynigion a wnaethom yn ein hadolygiad thematig o dechnoleg yn 2011, tra roedd yn canolbwyntio ar faterion eraill ym maes technoleg. Fodd bynnag, dros y misoedd diwethaf gwnaed cynnydd i gryfhau llywodraethu TGCh drwy ailsefydlu'r Grŵp Llywio TG Corfforaethol. Mae'r grŵp llywio yn gweithio i ddatblygu strategaeth dechnoleg ar gyfer y Cyngor a'r nod oedd ei chymeradwyo'n ffurfiol ym mis Ionawr 2014. Er ei fod ar gam eithaf datblygedig, nid yw'r gwaith hwn wedi'i gwblhau hyd yma. Cyfeiria'r *Strategaeth TGCh* ddrafft at y cynigion eraill a wnaed gennym ac mae'n nodi'r gwaith i'w wneud i fynd i'r afael â hwy sy'n mynd rhagddo. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn gweithio i ehangu mynediad electronig i gwsmeriaid a datblygu mesurau perfformiad i alluogi gwerthusiad gwell o'r gwasanaeth TG cyfan.

## Er bod gan y Cyngor gynlluniau ariannol clir a chadarn nid yw'n glir sut y mae'r rhain yn ategu cyflawni ei amcanion strategol a gwella

51 Mae'r cyngor yn rhagweld tanwariant refeniw cyffredinol o tua £2 filiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-14. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae pwysau yn yr adran Gofal Cymdeithasol a Thai yn golygu y rhagwelir gorwariant o oddeutu £1.4 miliwn. Fodd bynnag, mae rhai o adrannau eraill y Cyngor yn rhagweld tanwariant.

52 Ar ddiwedd 2012-13, roedd y Cyngor yn cadw tua £91 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, rhyw £8 miliwn yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio rhagor ar rai o'r cronfeydd wrth gefn hyn dros y blynyddoedd nesaf, gyda chronfeydd wrth gefn yn lleihau i £43.3 miliwn erbyn 2017 – mae'r lefel hon o gronfeydd wrth gefn yn parhau i fod yn ddarbodus.

53 Mae gan y Cyngor hanes o ymgysylltu ac mae wedi gwneud hynny'n eang mewn perthynas â'r gyllideb a'i flaenoriaethau. Rhoddwyd cyfle i aelodau, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol gyfrannu a gwneud sylwadau. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Adnoddau *Gynllun Ariannol Tymor Canolig* tair blynedd i'r Bwrdd Gweithredol ar 3 Chwefror 2014 a nododd gyllideb 2014-15 a chyllidebau dangosol ar gyfer 2015-16 a 2016-17. Argymhellodd y Bwrdd Gweithredol y dylid cymeradwyo cyllideb o £333 miliwn ar gyfer 2014-15 a oedd yn ymgorffori cynnydd o 4.77 y cant yn y dreth gyngor. Cafodd y cyllidebau dangosol ar gyfer 2015-16 a 2016-17, sef £332 miliwn (cynnydd o 3.2 y cant yn y dreth gyngor) a £331 miliwn (cynnydd o 5.26 y cant yn y dreth gyngor) eu hargymell hefyd. Wrth bennu'r cyllidebau hyn, mae angen rhaglen sylweddol gwerth £31 miliwn i leihau costau dros y cyfnod tair blynedd tan 2017.

54 Cafodd y *Cynllun Ariannol Tymor Canolig* ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 19 Chwefror 2014. Mae cynllun ariannol y Cyngor yn seiliedig ar amrywiaeth o wybodaeth gadarn a phriodol ond gallai

ddefnyddio amrywiaeth ehangach o wybodaeth a sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn fwy eang i'r rhai sy'n herio'r cynlluniau ac yn craffu arnynt. Mae cynllun cyffredinol y Cyngor yn cael ei gyflawni, gyda gwelliannau amlwg mewn meysydd gwasanaethau blaenoriaeth ac yn fras o fewn y gyllideb. Mae'r Cyngor yn monitro elfennau o'i gynlluniau yn rheolaidd, ond nid yw'n monitro arbedion effeithlonrwydd yn benodol, ac mae cysylltiadau gwan rhwng cynlluniau, a chydag amcanion strategol a gwella, yn lleihau effeithiolrwydd prosesau monitro. Bydd y cylch nesaf o bennu cyllidebau yn dechrau yn yr hydref ac mae'n debygol y bydd angen rhagor o arbedion effeithlonrwydd neu leihad mewn gwasanaethau – bydd gan y Cyngor benderfyniadau anodd i'w gwneud.

55 Mae'r Cyngor wedi sefydlu tîm Trawsnewid, Arloesi a Newid (TIC) sy'n ysgogi trawsnewid ym mhob rhan o'r Cyngor. Grŵp trawsadrannol o swyddogion yw'r tîm TIC sy'n gweithio ar tua 15 o brosiectau sy'n cyflawni canlyniadau gwell mewn perthynas â gwasanaethau ac effeithlonrwydd cefn swyddfa. Defnyddia'r Cyngor amrywiaeth o dechnegau, fel 'systemau darbodus', i ysgogi gwelliannau i brosesau sydd yn eu tro yn arwain at enillion effeithlonrwydd a/neu wella canlyniadau gwasanaethau. Ymhlith yr enghreifftiau o brosiectau mae adolygu'r system atgyfeirio gofal cymdeithasol i oedolion a lleihau'r amser y mae tai Cyngor yn wag rhwng tenantiaid. Ar y cyfan yn 2012-13, mae'r Cyngor yn amcangyfrif iddo wneud arbedion o £2.8 miliwn drwy'r prosiectau hyn.

56 Mae'r Cyngor yn dysgu o weithgarwch TIC ac mae'n cyfathrebu'r gwersi hyn drwy ymgysylltu â swyddogion, sesiynau hyfforddi ac ymgysylltu ag aelodau. Mae'r cyfathrebu yn agored ac yn dryloyw gan ategu nod y Cyngor i newid diwylliant a chael swyddogion i feddwl mewn ffyrdd mwy effeithlon ac effeithiol o'r cychwyn.

57 Ceir cymhlethdod cynhenid o ran cyfrifo'r arbedion posibl y gall unrhyw brosiect eu gwneud. Mewn gwirionedd, gall prosiectau sy'n cyflawni arbedion bach neu brosiectau cymhleth gostio mwy i'r Cyngor. I geisio lleihau unrhyw effaith bosibl yn sgil yr anhawster hwn, yn y dyfodol, mae'r Cyngor yn bwriadu sicrhau bod y tîm TIC yn canolbwyntio ar brosiectau lle gellir gwneud arbedion costau mwy, gyda'r nod o sicrhau arbedion effeithlonrwydd o £6.7 miliwn yn ystod 2013-14.

58 Mae'r Archwilydd Cyffredinol ar hyn o bryd yn ymchwilio i iechyd ariannol awdurdodau, eu hymagwedd at gyllidebau a chyflawni arbedion gofynnol, i ddarparu sicrwydd bod awdurdodau yn gadarn yn ariannol. Bydd y gwaith hwn yn ystyried a oes gan awdurdodau ymagwedd gadarn at waith i reoli'r gostyngiadau yn y gyllideb y maent yn eu hwynebu i sicrhau sefyllfa ariannol sefydlog sy'n eu galluogi i barhau i weithredu ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Canolbwyntia'r gwaith ar gynllunio ariannol ar gyfer 2014-15 a chyflwyno cyllidebau 2013-14. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gwblhau ar ddechrau 2014-15 a byddwn yn cyhoeddi'r canfyddiadau yn ein cylch nesaf o waith asesu gwella.

## Mae'r Archwilydd Penodedig wedi tynnu sylw'r cyhoedd at ddau o benderfyniadau'r Cyngor a oedd, yn ei farn ef, yn anghyfreithlon ac mae wedi tynnu sylw at nifer o feysydd lle mae angen gwella trefniadau llywodraethu

59 Ar 30 Medi 2013, rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ar gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2012-13. Fodd bynnag, tynnodd yr Archwilydd Penodedig sylw at ddwy eitem o wariant a oedd, yn ei farn ef, yn anghyfreithlon. Cyflwynodd yr Archwilydd Penodedig hefyd ei *Lythyr Archwilio Blynyddol* ym mis Mawrth 2014 – ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

60 Ym mis Ionawr 2014, cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig ddau adroddiad er budd y cyhoedd ar gyfer dwy eitem o wariant a oedd yn anghyfreithlon yn ei farn ef. Yn gyntaf roedd y penderfyniad a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol i roi'r opsiwn i uwch swyddogion gael swm sy'n cyfateb i gyfraniad pensiwn cyflogwr feltaliad ychwnaegol, i bob pwrpas, pe baent yn optio allan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yn anghyfreithlon ac mae taliadau a wnaed o ganlyniad i'r penderfyniad hwnnw yn arwain at eitem yn y cyfrifon a oedd yn 'groes i'r gyfraith'. Yn ail, mae'r penderfyniad a wnaed gan y Bwrdd Gweithredol, i indemnio'r Prif Weithredwr o ran costau gwrth-hawliad enllib, yn cael ei ystyried yn anghyfreithlon ac mae taliadau a wneir o ganlyniad i'r penderfyniad hwnnw yn arwain at eitem yn y cyfrifon a oedd yn 'groes i'r gyfraith'.

61 Ystyriodd y Cyngor yr adroddiadau hyn mewn Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor ar 27 Chwefror 2014. Mae'r Cyngor wedi derbyn yr argymhellion a wnaed mewn perthynas â'r cyfraniadau pensiwn ac mae wedi rhoi'r gorau i wneud y taliadau hyn. Mae'r Cyngor wedi nodi'r adroddiad yn ymwneud ag indemnedd a chytunodd i ddileu'r ddarpariaeth ar gyfer indemnedd o gyfansoddiad y Cyngor nes cael eglurhad o'r sefyllfa gyfreithiol. Yn yr adroddiadau er budd y cyhoedd roedd nifer o faterion llywodraethu y mae'r Cyngor yn derbyn bod angen gwella arnynt ac mae'n gweithio i fynd i'r afael â hwy wrth iddo adolygu a diweddaru ei drefniadau llywodraethu, gan gynnwys:

- adolygu'r trefniadau ar gyfer penderfynu ar eitemau brys ac eithrio adroddiadau rhag y cyhoedd;
- cadarnhau'r angen i nodi pwerau a goblygiadau cyfreithiol, yn benodol dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau ffurfiol;
- sicrhau bod yr holl ffactorau ac opsiynau perthnasol yn cael eu hystyried (gan gyfeirio at resymoldeb 'Wednesbury') wrth wneud penderfyniadau a sicrhau y ceir cyngor cyfreithiol priodol a, lle y bo'n berthnasol, ei fod yn cael ei adlewyrchu yn adroddiadau'r Cyngor;
- pwysleisio'r gofyniad i ddatgan diddordebau personol neu ariannol mewn fforymau gwneud penderfyniadau (a'r angen iddynt fod yn absennol pan fydd yr eitemau hyn yn cael eu trafod);

- adolygu statws ‘rhag-gyfarfodydd’; a
- gwella cofnodion cyfarfodydd i ddangos yn gliriach y manylion a drafodwyd, unrhyw ddatganiadau buddiannau a chofnodi lle mae swyddogion neu aelodau yn gadael a/neu yn dychwelyd i gyfarfodydd.

62 Mae’n amlwg bod angen i’r Cyngor, ei swyddogion a’i aelodau fyfyrio ar y themâu hyn. Bydd y pwysau ariannol cynyddol (ac o bosibl y newidiadau mewn llywodraeth leol yng Nghymru) yn golygu bod y Cyngor yn debygol o orfod gwneud rhai penderfyniadau polisi anodd ac mae gan bob swyddog ac aelod ran allweddol i’w chwarae yn hyn o beth, ac mewn sicrhau bod unrhyw ffydd a hyder a gollwyd yn sgil gwendidau mewn trefniadau yn cael eu hailadeiladu. Mae’r Cyngor wedi gofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gynnal Adolygiad Gwasanaethau Democrataidd i edrych ar y trefniadau llywodraethu a gweithdrefnol ar draws y sefydliad i’w helpu i ddeall beth mae angen iddo ei wneud i fynd i’r afael â’r gwendidau hyn.

## Ar hyn o bryd, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu dod i gasgliad ynghylch a yw'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15

63 Nes i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gwblhau ei gwaith a nes i ni gwblhau ein gwaith asesu gwelliant sydd i ddod, ni fydd modd i'r Archwilydd Cyffredinol ddod i gasgliad ar p'un a all y Cyngor roi trefniadau mewn lle er mwyn gwella'n barhaus. Byddwn yn trafod gyda swyddogion y sicrwydd ychwanegol sydd ei angen ar yr Archwilydd Cyffredinol i'w alluogi i ddod i gasgliad a chynnwys y rhain yn ein rhaglen gwaith rheoleiddio ar gyfer 2014-15.

# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Gaerfyrddin a Chyngor Sir Caerfyrddin

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £417 miliwn y flwyddyn (2012-13). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,265 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £84 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2012-13, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Sir Gaerfyrddin oedd £1,215.88 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 3.11 y cant i £1,253.71 y flwyddyn ar gyfer 2013-14. Mae 75.3 y cant o dai Sir Gaerfyrddin yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 74 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 22 Llafur, 22 Annibynnol: Clymblaid
- 28 Plaid Cymru
- 1 Gwerin Gyntaf
- 1 heb fod yn aelodau o unrhyw blaid

Prif Weithredwr y Cyngor yw Mr Mark James CBE. Fe'i cynorthwyir gan:

- Prif Weithredwr Cynorthwyol (Ffocws Cwsmeriaid a Pholisi): Chris Burns
- Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad): Paul Thomas
- Gwasanaethau Addysg a Phlant: Robert Sully
- Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai: Bruce McLernon
- Gwasanaethau Technegol: Richard Workman
- Dirprwy Brif Weithredwr ac Adfywio a Hamdden: David Gilbert
- Adnoddau: Roger Jones

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Sir Gaerfyrddin yw:

- Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Plaid Cymru
- Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, y Blaid Geidwadol
- Keith Davies, Llanelli, y Blaid Lafur
- Rebecca Evans, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Blaid Lafur
- Simon Thomas, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, Plaid Cymru
- Joyce Watson, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Blaid Lafur
- William Powell, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Sir Gaerfyrddin yw:

- Jonathan Edwards, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Plaid Cymru
- Simon Hart, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, y Blaid Geidwadol
- Nia Griffith, Llanelli, y Blaid Lafur

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun yn www.sirgar.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Cyngor Sir Gaerfyrddin, Canolfan Ddinesig, Caerfyrddin, SA31 1JP. Ffoniwch: 01267 234567 neu e-bost: galw@sirgar.gov.uk.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Kevin Madge
Arweinydd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

Annwyl Gynghorydd Madge,

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau er bod lle i wella mewn rhai meysydd

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiadau Ariannol yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y Datganiadau Ariannol;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r Datganiadau Ariannol.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu Datganiadau Ariannol yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2013, rhoddais farn archwilio ddiamod gyda pharagraff 'pwyslais mater' ar y Datganiadau Ariannol, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiadau Ariannol. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad ar 27 Medi 2013.

Yn y Pwyllgor Archwilio hwn nodwyd bod ansawdd y Datganiadau Ariannol yn dda a'u bod wedi gwella ac ni nodwyd unrhyw wendidau sylweddol yn eich rheolaethau mewnol. Nodwyd hefyd bod rheolaethau yn y system cyfrifyddu cyfalaf asedau sefydlog wedi gwella eleni er bod angen gwaith pellach.

Cododd y pwyslais mater oherwydd bod gwahaniaeth barn rhwng y Cyngor a ni ynghylch dau benderfyniad a wnaed gan y Cyngor a oedd, yn ein barn ni, wedi arwain at gynnwys gwariant anghyfreithlon yn y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2012-13. Yn dilyn hyn rwyf wedi cyhoeddi dau Adroddiad Budd y Cyhoedd (ar 31 Ionawr 2014) lle y nodais fod y penderfyniadau, yn fy marn i, yn anghyfreithlon. Ystyriodd y Cyngor yr adroddiadau hyn mewn cyfarfod Arbennig o'r Cyngor ar 27 Chwefror 2014 ac mae wedi cytuno i gymryd camau angenrheidiol mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed.

Yn yr Adroddiadau Budd y Cyhoedd ceir nifer o faterion llywodraethu y mae'r Cyngor yn derbyn bod angen eu gwella ac mae'n gweithio i fynd i'r afael â hwy wrth iddo adolygu a diweddaru ei drefniadau llywodraethu, gan gynnwys:

- adolygu'r trefniadau ar gyfer penderfynu ar eitemau brys ac eithrio adroddiadau rhag y cyhoedd;
- cadarnhau'r angen i nodi pwerau a goblygiadau cyfreithiol, yn benodol dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau ffurfiol;
- sicrhau bod yr holl ffactorau ac opsiynau perthnasol yn cael eu hystyried (gan gyfeirio at resymoldeb 'Wednesbury') wrth wneud penderfyniadau a sicrhau y ceir cyngor cyfreithiol priodol a, lle y bo'n berthnasol, ei fod yn cael ei adlewyrchu yn adroddiadau'r Cyngor;
- pwysleisio'r gofyniad i ddatgan diddordebau personol neu ariannol mewn fforymau gwneud penderfyniadau (a'r angen iddynt fod yn absennol pan fydd yr eitemau hyn yn cael eu trafod);
- adolygu statws 'rhag-gyfarfodydd'; a
- gwella cofnodion cyfarfodydd i ddangos yn gliriach y manylion a drafodwyd, unrhyw ddatganiadau buddiannau a chofnodi lle mae swyddogion neu Aelodau yn gadael a/neu yn dychwelyd i gyfarfodydd.

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn sefydlu grŵp trawsbleidiol i ddatblygu'r materion hyn ac adolygu'r trefniadau llywodraethu a gweithdrefnol ym mhob rhan o'r sefydliad.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y Datganiadau Ariannol ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, er fy mod yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith, fel y nodir uchod, mae rhai materion y mae'r Cyngor yn eu hadolygu ar hyn o bryd. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol

Fel sy'n wir am nifer o flynyddoedd, unwaith eto rydym wedi nodi gwendidau yn nhrefniadau rheoli grantiau'r Cyngor sy'n cyflwyno risg ariannol sylweddol i'r Cyngor ac i'w enw da. Mae ein gwaith yn y maes hwn yn parhau ond ein canfyddiadau yw bod angen gwella trefniadau rheoli grantiau'r Cyngor o hyd. Cyflwynir adroddiadau ar ein gwaith i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor yng Ngwanwyn 2014. Bydd gan y Pwyllgor Archwilio ran allweddol i'w chwarae o ran sicrhau yr eir i'r afael â'r materion ac y gwneir cynnydd yn y maes hwn.

Yn 2012-13, gorwariodd y Cyngor o ryw £1.1 miliwn, yn bennaf o ganlyniad i bwysau ychwanegol a arweiniwyd gan y galw yn y meysydd Gofal Cymdeithasol a Thai. Talwyd am y gorwariant hwn o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, sef £66 miliwn ar 31 Mawrth 2013 (ac eithrio'r Cyfrif Refeniw Tai, balansau Ysgolion a derbyniadau cyfalaf). Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2013-14, mae'r Cyngor yn rhagweld tanwariant o £2.7 miliwn yn erbyn y gyllideb.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd setliad cyllideb diweddar Llywodraeth Cymru ynghyd ag amrywiaeth o bwysau eraill o ran costau yn golygu y bydd cyrff llywodraeth leol yng Nghymru yn wynebu sefyllfaoedd ariannol eithriadol o heriol. Mae'r Cyngor wedi nodi bwlch cyllido gwerth £30 miliwn dros y tair blynedd nesaf ac er bod y Cyngor yn y broses o ddiweddaru ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig a nodi'r meysydd arbedion posibl i bontio'r bwlch hwn, bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod trefniadau'n cael eu sefydlu i fonitro'n agos i ba raddau y mae'r Cyngor yn cyrraedd y targedau arbedion terfynol.

Ar 24 Mehefin 2014 cyhoeddwyd tystysgrif gennym yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r Datganiad Cyfrifon wedi'i gwblhau.

Ar y cam cynllunio, y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 oedd £153,746. O ystyried y swm sylweddol o ohebiaeth gan etholwyr bydd y ffi archwilio ariannol yn £225,000.

Yn gywir,

**Richard Harries**

Arweinydd Ymgysylltu
Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

cc Mr Mark James, Prif Weithredwr
Mr Roger Jones, Cyfarwyddwr Adnoddau

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Caerfyrddin

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yn ei *Adroddiad Blynyddol 12/13 a Chynllun Gwella 13/14* sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.sirgar.gov.uk. Maent fel a ganlyn:

| Blaenoriaethau amcan gwella allweddol 2013-14 |
|---|
| Cynorthwyo'r nifer cynyddol o bobl hŷn i gadw urddas ac annibyniaeth yn eu blynyddoedd diweddarach. |
| Gwella stoc tai'r Cyngor a chynorthwyo pobl leol i gael mynediad i gartrefi rhent a fforddiadwy. |
| Parhau â'r buddsoddiad mwyaf erioed mewn addysg yn y sir hon. |
| Diogelu a gwella'r amgylchedd a gwneud cyfraniad pwysig i bolisïau ynni cynaliadwy a newid yn yr hinsawdd. |
| Creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi i bobl leol. |
| Sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a chyfeirio'n hadnoddau i'r gwasanaethau rheng flaen sy'n brif flaenoriaeth y mae llawer o bobl leol yn dibynnu arnynt. |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2012-13 ar gael yn yr un ddogfen, unwaith eto ar wefan y Cyngor yn www.sirgar.gov.uk.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk